**Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Gymraeg**
**Public Services and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Prif Weithredwyr
Prif Swyddogion Cyllid
Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru

Copi at:
Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau, CLlLC

22 Chwefror 2024

Annwyl Gydweithiwr,

**ARDRETHI ANNOMESTIG: HYSBYSIAD O LUOSYDD AR GYFER 2024-25**

Caiff yr hysbysiad hwn ei gyhoeddi ar ran Gweinidogion Cymru yn unol â pharagraff 3B o Atodlen 7 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (Deddf 1988) sy'n rhagnodi'r fformiwla ar gyfer cyfrifo'r Lluosydd Ardrethi Annomestig mewn blynyddoedd lle nad ydynt yn ailbrisio.

Y Lluosydd ar gyfer Ardrethi Annomestig yn y flwyddyn ariannol drethadwy 2024-25 fydd **0.562**.

Gall Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, naill ai roi cyfeiriadau at CPI ar gyfer mynegai arall neu ddarparu ffigur penodedig neu a ddisgrifir ar gyfer naill ai B a/neu C. Er mwyn cyfyngu'r cynnydd i'r lluosydd ar gyfer 2024-25, mae Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2024 wedi disodli ffigur penodol ar gyfer B yn lle'r ffigur CPI.

Cafodd y cyfrifiad hwn ei wneud drwy ddefnyddio'r fformiwla (A x B) / C ar y sail ganlynol:

A yw 0.535 (y lluosydd ar gyfer 2023-24)
B yw 130.0 (y ffigur cyfrifedig sy'n ofynnol i gyfyngu ar gynnydd y lluosydd)
C yw 123.8 (CPI ar gyfer mis Medi y flwyddyn ariannol ddwy flynedd flaenorol)

Yn gywir

**Ben Crudge**
**Pennaeth Polisi Trethi Lleol**
**Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Gymraeg**

Llywodraeth Cymru / Welsh Government
Parc Cathays / Cathays Park
CF10 3NQ
Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre: 0300 0604400